Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanfihangel Ystrad a gynhaliwyd ar Nos Fawrth, 10fed Rhagfyr, 2019 am 7.30pm yn Neuadd Dihewyd.

PRESENNOL

Cynghorwyr : Alan Henson, (Cadeirydd), Lynford Thomas, Haf Hughes, Gerwyn Owen, Johnny Davies, Lyn Williams, Glyn Davies, Harry Williams

1.YMDDIHEURIADAU

Y Cyng. Owen Llywelyn, Daniel Evans, Hywel Ifans

2. PERSONOL

Llongyfarchwyd y Cadeirydd ar ddod yn dadcu i Twm Alun Tandy, mab bach i Sian a Dylan**.**

3. DATGELU BUDDION PERSONOL

Ceisiadau ariannol. Ychwanegwyd dau at y rhestr oedd ar yr Agenda: i. Ysgol Sul Ystrad, ii. WASPI

Ni ddatgelwyd buddion personol.

4. **COFNODION**

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod 12fed Tachwedd, 2019 yn gywir. Cynigiwyd gan Y Cyng. Glyn Davies ac eiliwyd gan Y Cyng. Lyn Williams.

5. MATERION YN CODI

5.1 (12 iii). **Cywiriad.** Cadarnhawyd bod y tyllau yn Ffynnoner wedi eu llenwi.

8 vi. **Arwyddion Dihewyd**. Er cysylltu nifer o weithio â'r Cyngor, ni dderbyniwyd unrhyw wybodeth am brisiau arwyddion.

11b. **Deddf Amgylcheddol**. Cadarnhawyd y bydd y Clerc yn paratoi adroddiad byr i roi ar y wefan ac yn paratoi poster i'w arddangos yn y bocsys cymunedol ac ar y wefan.

6. **ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR**

Cafwyd adroddiad gan Y Cyng. Lynford Thomas am y digwyddiadau amrywiol bu'n mynychu yn ystod y mis gan gynnwys Diwrnod Gofalwyr yn Llanbed, Ffair Aeaf yn Nihewyd a Chyfarfod Blnynyddol Y Cyngor Llyfrau.

7. **CYLLID**

i. Trafodwyd y ceisiadau ariannol canlynol:

a. **Noah's Ark**. Cynigiwyd swm o £100 gan Y Cyng. Glyn Davies ac eiliwyd gan y Cyng. Harry Williams. Cytunwyd yn unfrydol.

b**. Cylch Meithrin Felinfach**. Cynigiwyd swm o £400 gan y Cyng. Harry Williams ac eiliwyd gan y Gyng. Gerwyn Owen. Cytunwyd yn unfrydol.

c. **WASPI**. Cynigiwyd swm o £25.00 gan y Cyng. Glyn Davies ac eiliwyd gan y Cyng. Gerwyn Owen. Cytunwyd yn unfrydol.

ch. **Ysgol Sul Ystrad**. Cynigiwyd swm o £300 gan y Cyng. Harry Williams ac eiliwyd gan y Cyng. Gerwyn Owen. Cytunwyd yn unfrydool.

ii. **Datganiad ariannol a Praesept 2020/21**

Dosbarthwyd datganiad ariannol a chyflwynwyd opsiynau ar gyfer y swm y bwriedir hawlio o'r Cyngor Sir am 2020/21. Yn dilyn trafodaeth gynhwysfawr, penderfynwyd ar Opsiwn 1, sef cadw'r Praespect yr un fath (£9950.00) a defnyddio'r arian wrth gefn ar gyfer ariannu prosiect cymunedol/arwyddion (i'w benderfynu). Diolchodd y Clerc i'r Archwilydd Mewnol, Mr. Gwyn Jones, am ei gefnogaeth wrth baratoi'r datganiad ariannol.

iii. Tâl y Clerc am fis Tachwedd £153.26 a treth i HMRC o £38.40 (I'w dalu erbyn 22/1/210

iv. Taliad Goleuadau Ynni. Cyngor Sir £781.24

8. CYNLLUNIO Dim materion i'w trafod.

9. **GOHEBIAETH.**

i. Derbyniwyd nodyn atgoffa gan y Cyngor Sir parthed yr angen i ail-gofrestru ar gyfer teithebau bws cyn diwedd mis Rhagfyr. Mae posteri wedi eu gosod yn y bocsys gwybodaeth.

ii. Derbyniwyd tystysgrif wrth yr ICO yn cadarnhau ein bod wedi cofrestru am flwyddyn arall.

10. **UNRHYW FATER ARALL**

i. Nododd y Cyng. Gerwyn Owen bod arwydd ar y tro ger Llys Afon, Cribyn wedi ei pheintio ag arwyddion a alla'i gael eu dehongli fel rhai amwys. Penderfynwyd cysylltu â'r Cyngor Sir ar fyrder yn gofyn iddynt eu dileu.

ii. Tynnodd y Cyng. Gerwyn Owen sylw at gyflwr arosfan bws Cribyn. Penderfynwyd trafod y mater gyda'r gofalwr, Tony Bretland..

iii. Mae'r dŵr ar hewl Arfryn i Bwlch wedi achosi problemau eto gyda'r tywydd oer. Mae'r gofalwyr wedi bod yn cael trafferth teithio ar yr hewl oherwydd ei bod mor llithrig. Penderfynwyd codi'r mater unwaith eto gyda'r Cyngor Sir.

11. **DYDDIAD A LLEOLIAD Y CYFARFOD NESAF**

Nos Fawrth, 11eg Chwefror, 2020 yn Neuadd Felinfach

.